

Llawlyfr i Gynghorwyr – Ymdrin ag Achosion o Gam-drin Ar-lein Mawrth 2018



Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn declyn pwerus i gynghorwyr. Maent yn eu helpu i ymgysylltu â chymunedau, codi ymwybyddiaeth o faterion cymunedol, digwyddiadau neu fentrau'r cyngor, yn ogystal â cheisio barn a chael adborth.

Fodd bynnag, mae elfen negyddol i'r cyfryngau cymdeithasol; nid yw gwleidyddion, yn enwedig menywod, erioed wedi wynebu cynifer o achosion o gam-drin a bwlio ar-lein, ac maent yn aml yn derbyn negeseuon annerbyniol, annymunol a bygythiol.

"Mae cam-drin gweision cyhoeddus yn annerbyniol ac ni ddylai unrhyw achos o gam-drin cynghorwyr ar-lein gael ei oddef"

Mae cam-drin gweision cyhoeddus yn annerbyniol ac ni ddylai unrhyw achos o gam-drin cynghorwyr ar-lein gael ei oddef. Mae cynghorwyr yn unigolion ymroddedig sy'n buddsoddi llawer iawn o amser, egni ac emosiwn mewn gwasanaethu eu cymunedau a'r cyhoedd. Yn aml, nid yw cynghorwyr yn cael diolch neu gydnabyddiaeth am eu hymdrechion, ond ni ddylent ddisgwyl cael eu cam-drin na'u haflonyddu.

Gall bod yn gynghorydd fod yn waith heriol a'ch rhoi mewn sefyllfaoedd lle byddwch yn aml yn agored i gael eich beirniadu. Mewn cyfnod pan mae llai o arian ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, dywedodd Alun Davies AC, Ysgrifennydd Llywodraeth Leol y Cabinet, mai '...cynghorwyr sydd â'r gwaith anoddaf mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd'.

Mae cynghorwyr yn aml yn gwneud penderfyniadau anodd neu ddadleuol sy'n gallu effeithio ar y cymunedau lle maent yn byw; mae cynghorwyr yn lleol, ar gael ac yn weladwy, felly gallent gael eu herio a'u beirniadu'n bersonol neu, yn waeth fyth, gael eu cam-drin.

Mae gwleidyddion etholedig yn gyffredinol yn goddef nifer cynyddol o achosion o gam-drin a bygythiadau personol; ystyriwyd y materion hyn a chyflwynwyd sawl argymhelliad yn Adroddiad y Pwyllgor Adolygu Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2017 ynghylch 'Bygwth mewn Bywyd Cyhoeddus'.¹

Fis Chwefror 2018, cyhoeddodd y Prif Weinidog, Theresa May, bod y llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ynghylch a ddylai bygwth ymgeiswyr ac ymgyrchwyr fod yn drosedd

¹https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/666927/6.3637_CO_v6_061217_Web3.1_2_.pdf

mewn cyfraith etholiadol². Bydd gwleidyddion yn parhau i wneud safiad personol ac ar y cyd wrth herio bygythiadau. Fodd bynnag, hyd nes bydd y gyfraith yn newid, bydd ymgeiswyr a gwleidyddion yn parhau i orfod cael cymorth cydweithwyr wrth reoli unrhyw achosion o gam-drin neu roi gwybod amdanynt.

Fodd bynnag, mae cam-drin ar-lein yn nodwedd anffodus o gymdeithas fodern ac mae'n anodd ei atal yn oes y cyfryngau cymdeithasol. Mae cam-drin ar-lein ar dwf; yn ôl cofnodion heddluoedd Cymru, cafwyd 2,915 achos o seiberfwlio, trolio, aflonyddu ar-lein a bygythiadau yn 2015, gan olygu bod nifer cyffredinol yr achosion o 'gyfathrebu maleisus' wedi mwy na dyblu³.

Mae pryderon yn cynyddu ynghylch sut mae cynghorwyr yn cael eu cam-drin ar-lein⁴ a'r ymddygiad yma gan y cyhoedd oedd y rheswm pam y penderfynodd nifer o gynghorwyr beidio ag ailsefyll yn etholiadau 2017.

"Mae herio a chraffu yn rhan allweddol o atebolrwydd democrataidd ac mae hyn i'w groesawu; ond dylai fod yn adeiladol a chwrtais"

Mae herio a chraffu yn rhan allweddol o atebolrwydd democrataidd ac mae hyn i'w groesawu; ond dylai fod yn adeiladol a chwrtais. Efallai bod rhai preswylwyr yn teimlo'n rhwystredig ynghylch rhyw fater neu am gyflwyno cwyn ddilys; ond dylai'r mater gael ei godi mewn cwrtais a pharchus.

Gall pethau fynd fymryn yn rhy bell ar adegau, ond mae modd eu rheoli gan mai datrys y broblem yw'r nod; gall achosion eraill, fodd bynnag, fod yn faleisus a pheri niwsans.

Yn anffodus, mae cam-drin ar-lein yn anfantais anochel sy'n gysylltiedig â bod yn gynghorydd yn ôl pob tebyg. Felly, mae'n bwysig bod cynghorwyr yn paratoi eu hunain ac ystyried pa gamau y gallent nhw eu cymryd i reoli, lleihau ac ymateb i unrhyw achosion.

"Mae angen i gynghorwyr fod yn ofalus iawn wrth roi gwybodaeth am eu hunain ar-lein"

Mae angen i gynghorwyr fod yn ofalus iawn wrth roi gwybodaeth am eu hunain ar-lein. Disgwylir i gynghorwyr gynnal y safonau uchaf cynghorwyr a chadw at gôd ymddygiad statudol. Felly, dylai cynghorwyr wneud yn siŵr nad yw'r hyn maen nhw'n ei ddweud, a sut maen nhw'n mynegi eu hunain ar-lein, yn digio'r cyhoedd neu gynghorwyr eraill yn ddiangen. Mae WLGA wedi paratoi llawlyfr ar wahân o'r enw [Llawlyfr am y Cyfryngau Cymdeithasol i Gynghorwyr](#) sy'n rhoi gair i gall ynghylch y cyfryngau cymdeithasol a'r

² <https://www.gov.uk/government/speeches/pm-speech-on-standards-in-public-life-6-february-2018>

³ <http://www.bbc.com/news/uk-wales-41729206>

⁴ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-41263983>

peryglon cyfreithiol a'r goblygiadau yng nghyd-destun y côd ymarfer. Mae hefyd yn sôn am sut gall y côd eu diogelu.

Mae rhai wedi honni'n ddirugaredd na ddylai gwleidyddion 'fod mor sensitif'. Er bod hynny'n wir i raddau a bod rhaid i gynghorwyr fod yn barod i gael eu beirniadu, ei anwybyddu yw'r ymateb gorau weithiau. Gallech gymryd rhai camau, a chofiwch fod cwmnïau cyfryngau cymdeithasol ac, yn bwysicaf oll, y gyfraith ar eich ochr chi.

"Mae cwmnïau cyfryngau cymdeithasol ac, yn bwysicaf oll, y gyfraith ar eich ochr chi"

Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth ymateb i rai sylwadau. Bydd amgylchiadau yn amrywio ac efallai y bydd angen ymateb mewn ffyrdd gwahanol i bob sylw gan ddibynnu ar natur a chyd-destun y neges, hanes yr unigolyn, ac ati.

Mae'r llawlyfr hwn yn rhoi cyngor ynghylch sut i reoli achosion o gam-drin neu aflonyddwch ar-lein neu roi gwybod amdanynt. Mae hefyd yn sôn am adnoddau ar-lein⁵ fydd yn eich arwain drwy'r broses o atal, tawelu, cuddio neu roi gwybod am sylwadau ar-lein, yn ogystal â rhoi'r gorau i fod yn 'ffrind' i'r sawl a anfonodd y sylw.

Yn syml, os nad ydych yn hoffi sylw ar y cyfryngau cymdeithasol, gallech ei anwybyddu neu ei herio. Fodd bynnag, os yw'r sylw yn enllibus, yn fygythiol neu'n peri aflonyddwch, gallwch gymryd camau a rhoi gwybod amdano.

Os ydych yn bryderus ynghylch unrhyw weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol, gallech ofyn i'ch Swyddog Monitro am gyngor yn y lle cyntaf; os hoffech gael rhagor o gefnogaeth, gallech gysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd neu gynghorwyr eraill yn eich plaid neu yn eich ward.



Mynd i'r afael ag achosion o gam-drin ar Twitter™

1. "Peidiwch â chael ffrae ar Twitter"

Nid yw ffraeo gyda rhywun sy'n ceisio eich gwylltio ar-lein yn syniad da, er cymaint yr hoffech chi ei roi yn ei le. Go brin y cewch chi'r 'gair olaf' gan fod pobl o'r fath, fel pob bwli, yn chwilio am sylw a'ch annog i ymateb; gallai eich ymateb eu hannog i'ch gwawdio ymhellach.

"Ydw i'n iawn i feddwl nad ydych chi am bleidleisio i mi?"

⁵ Mae dolenni i adnoddau wedi'u hymgorffori yn y testun. Fodd bynnag, os ydych yn darllen copi caled, maent hefyd yn y troednodiaidau.

Gall hiwmor a choegni weithio o bryd i'w gilydd: dyma sut y gwnaeth un cynghorydd oedd yn cael ei gam-drin ar-lein yn ystod yr etholiadau lleol lwyddo i dawelu'r sawl oedd yn anfon y sylwadau cas ato: "Ydw i'n iawn i feddwl nad ydych chi am bleidleisio i mi?"

Gall hyn weithio ar rai achlysuron ac yn sicr eich gwneud i chi deimlo'n well. Fodd bynnag, gallai ysgogi ymateb mwy cas dros gyfnod hwy, ac nid yw'n glir ar y cyfryngau cymdeithasol p'un a ydych o ddifrif neu'n bod yn goeglyd. Felly, gallech ddrysu neu dramgwyddo rhai o'ch dilynwyr arferol yn sgîl hynny.

Hefyd, bydd mwy o bobl yn eich dilyn chi yn ôl pob tebyg na'r rhai sy'n anfon sylwadau cas atoch. Mae gan y rhan fwyaf o'r bobl sy'n bod yn sarhaus ddilynwyr, a bydd llawer o'r rhain yn cydymdeimlo â'u barn a'u harddull. Os ydych yn penderfynu ymateb i neges gan rywun sy'n bod yn gas wrthy, bydd pob un o'r cannoedd neu filoedd o'ch dilynwyr yn gweld y trydariat gwreiddiol. Drwy ymateb, byddwch yn lledaenu'r casineb, yr honiadau neu'r wybodaeth anghywir a anfonwyd yn y lle cyntaf. Yn gyffredinol, nid yw'n werth rhoi unrhyw gyhoeddusrwydd i'r sawl sydd wedi anfon y neges.

2. Gwastraff amser?

Edrychwch i weld faint o bobl sy'n dilyn y sawl sy'n anfon y sylwadau cas atoch, a phwy yw'r dilynwyr hyn. Fel y nodwyd uchod, ychydig iawn o ddilynwyr fydd gan y bobl hyn. Os felly, ni waeth pa mor wael yw'r sylwadau a anfonwyd, ychydig o bobl (ac ychydig iawn o bobl sy'n bwysig i chi) fydd wedi gweld y sylwadau yn ôl pob tebyg.

3. Eich hawl i ateb

Os oes rhywun wedi anfon gwybodaeth anghywir amdanoch chi neu'r cyngor, byddwch yn naturiol yn awyddus i gywiro'r wybodaeth o dan sylw. Dylech ystyried y peryglon sy'n gysylltiedig ag ateb a pha mor lwyddiannus y byddwch yn ôl pob tebyg. Os yw'r wybodaeth yn enllibus, gallech ystyried cael cyngor cyfreithiol neu ymateb mewn ffyrdd eraill.

4. Symud y neges i barth arall

Os yw'r trydariat yn gŵyn am un o wasanaethau'r cyngor, gofynnwch am fanylion cyswllt ac anfonwch y wybodaeth at swyddogion er mwyn iddynt allu cymryd camau pellach. Rhwng wybod i'r unigolyn mai dyma yr ydych yn bwriadu ei wneud. Gall hyn helpu i leihau unrhyw densiwn.

5. Cofnodwch unrhyw achos o gam-drin

Os ydych wedi cael neges sy'n eich cam-drin ar-lein, hyd yn oed os nad ydych yn pryderu'n ormodol yn ei chylch neu'n bwriadu ei hanwybyddu, dylech ystyried cadw cofnod rhag ofn y

bydd unrhyw ddigwyddiadau gwaeth yn y dyfodol. Y cyfan sydd angen i chi wneud yw cymryd 'sgrinlun', 'clip' neu 'snip' o'r trydariadau ar eich ffôn neu eich cyfrifiadur. Gallech hefyd rybuddio'r sawl sy'n bod yn gas wrthy ch ar-lein eich bod yn cadw cofnod o bob neges ac y gallech eu hanfon ymlaen at yr awdurdodau perthnasol. Gallai hyn eu dychryn rhag anfon rhagor o sylwadau pellach neu eu hannog i'w dileu.

6. Mynd i'r afael â difenwad

Yn ogystal â chymryd cofnod, os ydych yn credu fod trydariad yn eich difenwi (h.y. datganiad ffug a allai niweidio eich enw da) mai nifer o opsiynau y gallech eu cymryd. Fe allech gysylltu â'r unigolyn i ofyn am ddileu'r trydariad; fe allai rhai unigolion fod wedi gwneud camgymeriad heb falais a byddant yn dileu'r neges ar unwaith. Yn dibynnu ar natur y trydariad a'r nifer o ddilynwyr a allai fod wedi gweld y trydariad, fe allech fod yn dymuno ceisio cywiriad a/neu ymddiheuriad.

Os yw'r dull hwnnw'n aflwyddiannus neu lle mae trydariad difenwol yn achosi pryder difrifol neu'n rhan o ymgyrch ar y cyd, fe allech fod yn dymuno cyflwyno llythyr 'rhybudd a thynnu' drwy eich cyfreithiwr; er nad oes gennych fwriad o bosib cymryd camau pellach, mae'r bygythiad o gamau cyfreithiol yn aml yn arf ataliol pwerus a all annog datrysiad cyflym a llwyddiannus. Fe allech fod yn dymuno ceisio cyngor anffurfiol gan eich Swyddog Monitro, ond mae Swyddog Monitro yn annhebygol o ddod yn rhan o hyn oni bai fod y difenwr yn aelod etholedig arall (yn yr achos hwnnw fe allai fod yn honiad o dorri'r Cod Ymddygiad).

7. Tawelu neu Atal

Gallech dawelu, atal neu roi'r gorau i ddilyn rhywun sy'n eich trydaru'n ddi-baid. Mae canllawiau ynghylch sut i dawelu neu atal ar gael gan Twitter, ond dyma grynodeb:

Tawelu⁶ - mae hyn yn eich galluogi i dynnu trydariadau o gyfrif penodol o'ch llinell amser, ond nid yw'n mynd mor bell ag atal cyfrif neu roi'r gorau i'w ddilyn. Ni fydd y cyfrifon tawel yn gwybod eu bod wedi cael eu tawelu, a gallwch eu 'dad-dawelu' ar unrhyw adeg.

Atal⁷ - mae hyn yn eich galluogi i atal rhai cyfrifon rhag cysylltu â chi, gweld eich trydariadau neu eich dilyn. Yn wahanol i dawelu, gall pobl gael gwybod os ydynt wedi'u 'hatal' a gallant eich cyhuddo o osgoi eu hymdrechion i graffu ar eich gwaith; gall hyn fod gwerth y strach os bydd yn eu hatal rhag ymddwyn yn y fath fodd, a gallech wrthbrofi honiad o'r fath yn rhwydd os oes angen.

Yn ôl Twitter, ni all cyfrifon sydd wedi'u rhwystro:

- Eich dilyn

⁶ <https://support.twitter.com/articles/20171399>

⁷ <https://support.twitter.com/articles/117063>

- Gweld eich trydariadau (oni bai eu bod yn rhoi gwybod amdanoch chi, ac mae eich trydariadau yn sôn amdanynt)
- Dod o hyd i'ch trydariadau wrth chwilio amdanynt ar ôl mewngofnodi ar Twitter
- Anfon negeseuon atoch yn uniongyrchol
- Gweld pwy sy'n eich dilyn chi na beth maent yn eu hoffi neu eu rhestrau pan maent wedi mewngofnodi ar Twitter
- Gweld 'Moment' yr ydych wedi'i greu ar ôl mewngofnodi ar Twitter
- Ychwanegu eich cyfrif Twitter at eu rhestrau
- Eich tagio mewn llun

8. Rhoi gwybod i Twitter am achosion o gam-drin

Mae Twitter yn hyrwyddo 'Rheolau' sy'n annog trafodaeth adeiladol, ond maent yn benodol yn gwahardd ymddygiad '... sy'n cael ei ddisgrifio fel cam-drin, gan gynnwys ymddygiad sy'n aflonyddu, codi ofn, neu'n tawelu llais rhywun arall.'⁸

Os ydych yn credu bod trydariadau yn torri rheolau Twitter, gallwch roi gwybod i Twitter, a gallen nhw benderfynu cymryd camau. Cewch wybod rhagor ar dudalen Twitter [Sut i roi gwybod am achosion o dorri rheolau](#)⁹.

9. Rhoi gwybod i'r heddlu am achosion o gam-drin

Os bydd rhywun yn anfon negeseuon bygythiol, difriol neu sarhaus ar unrhyw safle rhwydweithio cymdeithasol, mae'n bosibl eu bod yn cyflawni trosedd. 'Aflonyddwch' a 'chyfathrebu maleisus' yw'r troseddau mwyaf perthnasol.

Yn ôl yr heddlu, mae aflonyddu yn golygu 'ymddygiad dros gyfnod' (h.y. o leiaf dau ddigwyddiad cysylltiedig) ac nid oes rhaid i'r negeseuon fod o reidrwydd yn rhai treisgar o ran natur, ond rhaid iddynt fod yn rhai gormesol ac wedi achosi braw neu ofid.

Gall trosedd sy'n ymwneud â chyfathrebu maleisus fod yn un digwyddiad, ond rhaid i neges fod naill ai'n anwedus, yn hynod sarhaus, yn aflednais neu'n fygythiol neu beryglus.

Mae'r heddlu yn cynghori y gallech roi gwybod i Twitter am y mater yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, os hoffech roi gwybod i'r heddlu lleol am achos o'r troseddau hyn, ni ddylech ymateb i'r neges oherwydd gallai hynny annog y sawl a anfonodd y neges a gwneud y sefyllfa'n waeth. Mae'r heddlu hefyd yn cynghori y dylech gymryd sgrinlun o'r neges, er mwyn i chi gael cofnod o beth gafodd ei ddweud os caiff ei dileu yn ddiweddarach.

⁸ <https://support.twitter.com/articles/18311?lang=en#>

⁹ <https://support.twitter.com/articles/15789#>

Cewch ragor o wybodaeth am y cyfryngau cymdeithasol a throseddau gan yr [heddlu](#)¹⁰ a [Gwasanaeth Erllyn y Goron](#)¹¹



Mynd i'r afael ag achosion o gam-drin ar Facebook™

Fel gyda Twitter neu unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol arall, gallwch ymateb i achosion o gam-drin ac aflonyddwch drwy bwysu a mesur ai anwybyddu, ymateb, cyfeirio, cymryd cyngor cyfreithiol neu roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau yw'r peth doethaf i'w wneud.

Wedi dweud hynny, mae gan Facebook '[Safonau Cymuned](#)'¹² a dulliau ychydig yn wahanol i ddelio â chwynion.

Rydych hefyd yn fwy tebygol o weld ymgyrchoedd neu grwpiau cymunedol neu dudalennau sydd wedi'u creu'n benodol i gynnig ffyrdd o graffu arnoch chi, cynghorwyr eraill neu eich cyngor lleol. Mae craffu a herio mewn ffyrdd adeiladol yn arferion i'w cefnogi. Fodd bynnag, os na chaiff y grwpiau hyn eu cymedroli'n effeithiol, maent yn gallu cael eu defnyddio er mwyn cam-drin ac aflonyddu.

Er bod Facebook yn annog ymddygiad parchus ac yn cymryd camau i ddiogelu '[unigolion preifat](#)'¹³ rhag cael eu bwlio a'u haflonyddu, mae'n caniatáu 'trafodaeth agored a beirniadol am bobl sy'n cael sylw yn y newyddion neu sydd â chynulleidfa gyhoeddus fawr oherwydd eu proffesiwn neu eu gweithgareddau dewisol', ond maent yn cymryd camau yn erbyn 'bygythiadau credadwy' a 'mynegiant o gasineb'¹⁴.

Ymateb i achosion o gam-drin neu aflonyddwch

Gallwch reoli achosion o gam-drin neu aflonyddwch ar Facebook mewn sawl ffordd ac mae cyfarwyddiadau llawn ar gael ar [dudalen cymorth Facebook](#)¹⁵:

- Os ydych am i sylw gael ei ddileu o Facebook, gallwch ofyn i'r unigolyn a anfonodd y sylw gael gwared arno.
- Os nad ydych yn hoffi stori sy'n ymddangos yn eich Ffrwd Newyddion, gallwch ei [guddio](#).
- Os nad ydych yn hapus gyda sylw yr ydych wedi'i dderbyn o ganlyniad i fod wedi eich tagio i grŵp, cewch [dynnu'r tag](#).
- Gallwch adael [sgwrs](#) ar unrhyw adeg, ond bydd y bobl eraill yn y sgwrs yn cael eu hysbysu ac ni fyddwch yn cael rhagor o negeseuon o'r sgwrs.

¹⁰ <https://www.askthe.police.uk/content/Q770.htm>

¹¹ http://www.cps.gov.uk/legal/a_to_c/communications_sent_via_social_media/

¹² <https://www.facebook.com/communitystandards#attacks-on-public-figures>

¹³ <https://www.facebook.com/communitystandards#bullying-and-harassment>

¹⁴ <https://www.facebook.com/communitystandards#attacks-on-public-figures>

¹⁵ <https://www.facebook.com/help/408955225828742?helpref=search&sr=6&query=unfriend>

- Gallwch ddewis [rhoi'r gorau i fod yn ffrind](#) i ddefnyddiwr arall neu ei [atal](#); ni fyddant yn gallu eich tagio mwyach na gweld beth ydych yn ei gynnwys ar eich llinell amser.
- Os bydd y sylw yn mynd yn groes i Safonau Cymuned Facebook, gallwch roi gwybod i Facebook amdano.

Ymateb i achosion o gam-drin neu aflonyddwch mewn grwpiau neu dudalennau

Mae craffu a herio mewn ffyrdd adeiladol yn arferion i'w cefnogi. Fodd bynnag, os nad ydynt yn cael eu cymedroli'n effeithiol, gall unigolion neu grwpiau eu defnyddio er mwyn cam-drin ac aflonyddu.

Efallai bod gan eich cyngor bolisi neu dacteg ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â grwpiau o'r fath, yn enwedig os ydynt wedi'u sefydlu i feirniadu'r cyngor. Felly, dylech geisio cyngor swyddogion cyfathrebu'r cyngor.

Nid oes un ffordd gywir neu anghywir o ymateb i grŵp neu dudalen sy'n beirniadu'r cyngor neu gynghorwyr yn rheolaidd; mae rhai yn meddwl bod ymgysylltu'n adeiladol yn gallu bod o les er mwyn egluro, hysbysu neu gyfeirio a, thrwy hynny, cynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chefnogaeth. Mae eraill yn fwy amharod gan ei fod yn golygu rhoi amser ac ymdrech ar gyfer sefyllfa sy'n annhebygol o arwain at ganlyniad llwyddiannus.

Os ydych yn bryderus ynghylch sylwadau neu negeseuon amdanoch mewn grŵp neu ar dudalen, gallwch [roi gwybod i Weinyddwr y Grŵp amdanynt](#).¹⁶ Os ydych yn bryderus bod grŵp yn sarhaus ac rydych yn meddwl eu bod wedi torri Safonau Cymuned Facebook, gallwch [roi gwybod i Facebook am y grŵp](#).¹⁷

Rheoli a chymedroli eich grŵp neu eich tudalen eich hun

Efallai yr hoffech greu eich tudalen personol eich hun neu fel cynghorydd neu gymuned ar Facebook. Mae'r rhain yn llwyfannau gwerthfawr er mwyn hyrwyddo gwybodaeth leol, newyddion, digwyddiadau neu ddatblygiadau'r cyngor neu i geisio barn pobl ynghylch cynigion gan y gymuned neu'r cyngor.

Gall aelodau'r gymuned ac eraill gyfrannu a gwneud sylwadau mewn modd rhyngweithiol. Er bod hyn yn adeiladol ac yn defnyddio iaith dderbyniol yn bennaf, gall rhai pobl ddefnyddio iaith anweddus neu fynd yn rhy bell drwy fod yn sarhaus ac aflonyddu.

Gall iaith anweddus gael ei defnyddio'n anfwriadol weithiau. Os mai chi yw gweinyddwr y grŵp neu'r dudalen, gallwch geryddu'r unigolyn yn gwrtais a rhoi cyngor ynghylch pa ymddygiad sy'n dderbyniol. Mae hyn yn aml yn arwain at gael ymddiheuriad gan yr unigolyn o dan sylw.

¹⁶ <https://www.facebook.com/help/436113899837980?helpref=search&sr=1&query=report%20to%20admin>

¹⁷ <https://www.facebook.com/help/266814220000812?helpref=related>

Os ydych yn weinyddwr grŵp neu dudalen, mae Facebook yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd o reoli a chymedroli cynnwys neu gyfraniadau pobl eraill ar gyfer eich grŵp neu eich tudalen os oes achosion mwy difrifol o dorri'r safonau.

Cewch:

- Atal rhai geiriau neu roi 'hidlydd iaith fras' yn y gosodiadau er mwyn atal sylwadau o'r fath rhag ymddangos ar eich tudalen;
- Cuddio neu ddileu sylwadau, lluniau neu dagiau; a
- Gwahardd neu dynnu rhywun o'ch tudalennau.

Mae canllawiau a chyfarwyddiadau defnyddiol i'w gweld yn yr adran [Gwahardd a Chymedroli](#)¹⁸ ar Facebook.

Gall gweinyddu grŵp mawr fod yn llawer o waith, yn enwedig os yw aelodau'r grŵp yn weithgar. Os felly, gallech rannu'r cyfrifoldeb gyda chynghorwyr, ffrindiau neu aelodau eraill y gymuned yr ydych yn ymddiried ynddynt. Mae canllawiau ynghylch sut i wneud pobl eraill yn weinyddwyr neu'n gymedrolwyr ar gael ar [Facebook](#).¹⁹

Mynd i'r afael ag achosion o gam-drin mewn blogiau

Mae blogiau yn ffordd gyflym a rhwydd o alluogi'r cyhoedd neu gynghorwyr i greu mân-wefannau er mwyn trafod a rhoi eu barn ynghylch materion sydd o ddiddordeb.

O bryd i'w gilydd, gall blogiau ymwneud â materion lleol a chymunedol, ac mae rhai wedi'u creu'n benodol i graffu ar y cyngor lleol neu gynghorwyr.

Er bod craffu yn rhan allweddol o ddemocratiaeth leol ac atebolrwydd, mae rhai blogiau weithiau yn gwneud sylwadau annheg neu honiadau anghywir, neu gallant gynnwys sylwadau sarhaus neu fygythiol. Yn wahanol i Facebook a Twitter, nid oes unrhyw 'reolau neu safonau cymuned' er mwyn cymedroli neu herio cynnwys o'r fath.

Gan ddibynnu ar natur y sylwadau, dyma beth y gall cynghorwyr ei wneud:

- Anwybyddu'r blog yn llwyr a gobeithio nad oes llawer o bobl yn darllen ac yn ymwybodol o'r sylwadau;
- Ymgysylltu â'r blogiwr a cheisio tawelu meddwl, hysbysu neu gywiro'r sylwadau fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, fel yn achos yr unigolion sy'n anfon sylwadau sarhaus ar-lein, gall hyn eu hannog i barhau â'r drafodaeth a chyflwyno rhagor o sylwadau ymosodol; neu
- Os ydych yn poeni bod y blogiwr yn eich aflonyddu, yn eich bygwth, yn cyfathrebu'n faleisus, yn eich difenwi neu'n eich enllibio, gallwch gofnodi unrhyw dystiolaeth (e.e. cymryd sgrinluniau) a cheisio rhagor o gyngor cyfreithiol neu gyfeirio'r mater at yr heddlu.

¹⁸ https://www.facebook.com/help/248844142141117/?helpref=hc_fnav

¹⁹ <https://www.facebook.com/help/148640791872225?helpref=search&sr=3&query=group%20admin>